


Y Mosg

Nod ac Amcan:

- Codi eich ymwybyddiaeth o brif nodweddion man addoli'r Mwslimiaid.
- Ymarfer eich sgiliau cyfathrebu.



Medina



The image shows the exterior of a mosque. A large, curved brick wall forms the main structure. In the center, there is a dark wooden door set within a semi-circular archway. Above the arch, a small dome with a finial is visible. To the right, a taller brick wall extends upwards. Several hanging plants in wire baskets are attached to the brick walls. A small white sign is posted on the door.

Y Mosg

Tu mewn i Fosg Yemeni,
Caerdydd.

Nesaf

Tu Allan

Gromen



Y Gromen

Mae'r Gromen yn
symbol o'r
bydysawd
creodd Allah.



Nesaf

Y Minaret



Y Minaret

Dyma ble mae'r
galwad i weddïo
yn cael ei
gyhoeddi.



Nesaf

Y Brif Mynedfa



Y Rac Esgidiau

Wrth i Fwslimiaid ddod i mewn i'r Mosg mae'n rhaid iddynt dynnu eu hesgidiau i ffwrdd. Maent yn rhoi eu hesgidiau ar y rac a lleolir yn y brif fynedfa. Maent yn gwneud hyn am 2 wahanol reswm :

1. Cadw'r Mosg yn lan
2. Dangos parch at Allah.

Y Brif Fynedfa



THE DOOR
CENTRE
1 ONE HOUR
AND CLOSED
PRAYERS
2 RE-OPENED
AND CLOSED
ISHA PRAYERS
30 LECTURES
AT THE DOOR
CENTRE

Yr Hysbysfwrdd

- Mae'r brif fynedfa yn cynnwys hysbysfwrdd.
- Mae'r bwrdd yn cynnwys gwybodaeth am y Mosg ac am y gymuned leol. Er enghraifft mae un o'r hysbysebion yn cyhoeddi oriau agored y Mosg.

Wudu – Man Golchi



Wudu

- Cyn gweddïo mae'n bwysig bod pob Mwslim yn golchi - Wudu.
- Pwrrpas golchi yw sicrhau eu bod yn lan yn gorfforol a meddyliol cyn gweddïo i Allah.
- Mae gan bob Mosg fan penodol i ymolchi.
- Mae dynion a gwragedd yn golchi ar wahân.

Y Brif Neuadd



Y Brif Neuadd

- Prif ran y Mosg yw'r neuadd weddïo.
- Mae'n ystafell fawr sydd yn cynnwys nifer o nodweddion sydd yn cynorthwyo Mwslimiaid wrth iddynt weddïo.

Y
Mihrab
ar Wal
Qiblah



Y Mihrab ar wal Qiblah

- Y Mihrab yw un o brif rannau'r neuadd.
- Mae'r Mihrab yn alcof yn un o welydd y Mosg - Y Qiblah (gwynebi cyfeiriad Mecca).
- Felly mae'r mihrab ym mlaen y neuadd ac mae'r Mwslimiaid yn ei wynebu wrth weddio.

Y Minbar




Y Minbar

- O flaen y mihrab mae'r minbar.
- Platform yw'r Minbar yn debyg i bwlpudd mewn Eglwys/ Capel.
- Maer **imam** yn cynnal rhan o'r gwasanaeth dydd Gwener o'r Minbar.

Cloc



قل
فو



Cloc

- Yn y Mosg mae yna 6 cloc. Nid yw'r clociau yma yn gweithio.
- Mae'r 5 cloc cyntaf yn dangos amseroedd gwahanol gweddïo.
- Mae'r chweched cloc yn dangos amser gwasanaeth prynhawn dydd Gwener.

Cloc

- Prif iaith y grefydd Islam yw Arabeg. Mae Arabeg wedi ysgrifennu o'r dde i'r chwith. Trefn y clociau :

2	1
4	3
6	5

1. Gweddi cyn gwawr
2. Gweddi ar ôl canol dydd
3. Gweddi prynhawn
4. Gwedi ar ôl machlud haul
5. Gweddi nos
6. Amser gwasanaeth prynhawn dydd Gwener- Juma

Y Carped



Y Carped

- Fel arfer mae gan bob Mosg garped neu fatiau ar lawr y brif neuadd. Pwrpas hyn yw ceisio gwneud y cyfnod o weddïo yn un cyfforddus i Fwslimiaid.
- Ar adegau, fel ym Mosg Yemeni, Caerdydd mae'r carped wedi ei addurno fel bod matiau unigol ar y llawr. Wrth wneud hyn mae pawb yn ymwybodol o faint o le sydd ganddynt i weddïo - yn debyg i faes parcio!



Mwclen
← Gweddïo

Mwclen Gweddïo

- Yn ogystal ag ymarfer Salah, gall Mwslimiaid gweddïo i Dduw ar unrhyw adeg.
- Gall Mwslimiaid defnyddio mwclen gweddïo i'w gynorthwyo wrth weddïo. Mae yna 99 mwclen.
- Rheswm dros hyn yw oherwydd eu bod yn credu fod gan Allah 99 enw gwahanol:

Y Nerthol, Yr Amddiffynnydd,
Y Creawdwr, Y Barnwr, Yr un doeth,
Yr un Pwerus, Y Tragwyddol

Gweddi Gwagedd



Gweddi Gwragedd

- Mae gwragedd yn gweddïo ar wahân i ddynion.
- Mae hyn yn digwydd am fod Mwslimiaid eisïau canolbwyntio ar Allah wrth weddïo heb fod presenoldeb y rhyw arall yn tarfu arnyn nhw.
- Os nad oes ystafell ar wahân mewn mosg, bydd y menywod yn sefyll y tu ôl i'r dynion yn y neuadd weddïo.



Mat Weddio



Mat Weddïo

- Does dim rhaid i Fwslimiaid weddïo yn y Mosg.
- Mae'r mat weddïo yn cynnig man lan i weddïo.
- Mae'n bosibl prynu matiau gweddïo o wahanol liwiau gyda phatrymau geometregol a llun o Fosg.
- Mae rhai matiau yn cynnwys cwmpawd-cyfeiriad Mecca.

Zakah

FITRA ZAKAH
BOX

زكاة الفطر

Bocs Zakah

- Ym mhob Mosg mae yna Focs Zakah.
- Mae Mwslimiaid yn rhoi arian yn y bocs Zakah ar gyfer pobl mewn angen neu i gadw'r Mosg.
- Zakah - un o'r Pum Piler.



Y Qur'an

Y Qur'an

- Llyfr Sanctaidd – Y Qur'an.
- Mae'r Llyfr Sanctaidd yn cynnwys y geiriau rhoddwyd i'r Proffwyd Muhammad o Allah.
- Iaith y Llyfr – Arabeg.
- Mae geiriau'r Qur'an yn cynorthwyo Mwslimiaid trwy ei fywyd.
- Nid yw'r Qur'an i'w rhoi ar y llawr- felly mae yna stondin arbennig ganddo - dangos parch i eiriau Allah.



Addurniadau'r
Mosg

Addurniadau'r Mosg

- Fel arfer mae'r Mosg wedi ei addurno'n brydferth iawn. Er hyn byddwch byth yn gweld lluniau o bobl nac anifeiliaid yn y Mosg. Dywedodd Allah wrth Fwslimiaid i beidio gwneud hyn rhag ofn iddynt addoli'r bobl ac anifeiliaid yn y lluniau. Fel arfer mae'r Mosg wedi ei addurno mewn 3 ffordd:
- [Adnod o'r Qur'an yn Arabeg](#)
- [Lluniau o Fosg enwog](#)
- [Patrymau Geometregol](#)

Adnod o'r Qur'an



Mae'r iaith
Arabeg yn
gallu cael ei
ysgrifennu
mewn ffordd
brydferth.

Yn aml fe fydd gwelydd y Mosg yn cynnwys
geiriau neu adnod o'r Qur'an. Mae hyn hefyd yn
cynorthwyo'r Mwslimiaid.

No!

Lluniau o Fosg Enwog

Mae'r llun yma yn cael ei arddangos ar wal ym mhrif neuadd Mosg Caerdydd. Llun o'r Ka'bah ym Mecca - dyma'r Mosg mwyaf enwog.





Mae pob Mosg yn cael ei
addurno mewn ffyrdd
gwahanol - patrymau
gwahanol. Mae cromen
Mosg Caerdydd yn cynnwys
fffenestri lliwgar gyda siapau
geometregol.

Tasgau

Atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam mae Mwslimiaid yn golchi cyn gweddïo?
- Pam nad oes lluniau o bobl ac anifeiliaid yn y Mosg?
- Pam mae Mwslimiaid yn defnyddio Mwclen Weddïo?